Rhif: WG48348

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru - crynodeb o'r ymatebion

# Gorfodi gwaharddiadau a chyfyngiadau ar gynhyrchion plastig untro penodol

Cynigion pellach i wneud rheoliadau sancsiynau sifil o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 - Cosbau Ariannol Penodedig.

Dyddiad cyhoeddi: 30 Hydref 2023

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd** | https://llyw.cymru/ymgyngoriadau |

| | |
|---|---|
| **ISBN** | **978-1-83504-980-8** |

## Tabl Cynnwys


Cyflwyniad ..... 4

Ymatebion i'r ymgynghoriad ..... 6

Cwestiwn 1. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i ddefnyddio cosbau ariannol penodedig? Rhowch y rhesymau dros eich ateb ..... 6

Cwestiwn 2. Os defnyddir cosbau ariannol penodedig, rydym yn cynnig y dylid pennu swm o £200. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â’r swm hwnnw? ..... 8

Ymateb y Llywodraeth a'r camau nesaf ..... 9

## Cyflwyniad

Yn gynnar yn 2023, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar ei chynigion i ddefnyddio'r pwerau sydd ar gael iddi o dan adran 17 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 ("y Ddeddf") i gyflwyno sancsiynau sifil i orfodi'r gwaharddiadau a'r cyfyngiadau ar gynhyrchion plastig untro penodedig. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 17 Ebrill 2023 a 09 Mehefin 2023. Gwnaethom egluro yn y ddogfen ymgynghori pam ein bod yn cynnig sancsiynau sifil, sut y byddai'r sancsiynau hyn yn gweithredu a'r gwahanol fathau o sancsiynau a fyddai ar gael i awdurdodau lleol. Roeddent yn cynnwys gofynion disgresiwn (er enghraifft Cosbau Ariannol Amrywiadwy (VMPs)), hysbysiadau stop ac ymgymeriadau gorfodi. Fe welwch ragor o fanylion am y cynigion hyn, ynghyd â chrynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, ar wefan Llywodraeth Cymru.

Fel rhan o'r broses ymgynghori, nododd un ymatebydd, awdurdod lleol, y byddai'n ffafrio cosbau ariannol penodedig (FMPs) at ddiben gorfodi yn hytrach na'r Cosbau Amrywiadwy sy'n cael eu cynnig. Roedd yr ymatebydd o'r farn bod Cosbau Penodedig yn llai beichus ac yn llai o dreth ar adnoddau. Er enghraifft, ar gyfer Cosbau Penodedig, nid oes angen i awdurdod lleol weld cofnodion ariannol troseddwr i gyfrif lefel y gosb, rhywbeth y gallai fod angen ei wneud gyda Chosbau Amrywiadwy. Er mwyn sicrhau bod gan awdurdodau lleol yr offer gorfodi mwyaf effeithiol a hyblyg posib, cynigiwyd cynnwys Cosbau Penodedig a Chosbau Amrywiadwy yn ein sancsiynau sifil.

O'r herwydd, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ail ymgynghoriad i ofyn beth fyddai'r farn ynghylch cynnwys Cosbau Penodedig. Cynhaliwyd ymgynghoriad byr, dau gwestiwn rhwng 23 Awst 2023  a 4 Hydref 2023. Gofynnwyd a oedd pobl yn cytuno â chynnwys Cosbau Penodedig ac os oeddent, a oeddent yn cytuno â swm penodedig o £200.

**Trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad**

Cafwyd 37 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Yn eu plith, roedd ymatebion llawn ac ymatebion rhannol, lle atebwyd un cwestiwn yn unig.

Roedd y ffurflenni ymateb i'r ymgynghoriad ar gael yn y Gymraeg ac yn Saesneg ac roedd unigolion yn cael ymateb yn eu dewis iaith. Rhannwyd yr ymatebion rhwng y ddwy iaith fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cymraeg | 1 |
| Saesneg | 36 |

Roedd ymatebwyr yn cael ymateb ar we-dudalen ymgynghori Llywodraeth Cymru neu'n cael lawrlwytho ffurflen ymateb a'i e-bostio i flwch negeseuon e-bost electronig. Ceir trosolwg o'r rhaniad yn yr ymatebion isod.

| | |
|---|---|
| Ymatebion a gyflwynwyd ar-lein | 30 |
| Ymatebion a gyflwynwyd drwy e-bost | 7 |

Gweler manylion yr ymatebwyr yn ôl eu math isod:

| Math o sefydliad | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Aelod o'r cyhoedd (heb fod yn gysylltiedig â grŵp na pherchennog busnes) | 23 |
| Perchennog busnes/Grwp cynrychioli busnes | 5 |
| Awdurdod Lleol/Grŵp cynrychioli Awdurdodau Lleol | 4 |
| Busnes gwastraff/grŵp diwydiant gwastraff | 3 |
| Sefydliad arall yn y sector cyhoeddus | 1 |
| Mudiad elusennol/gwirfoddol | 1 |

## Ymatebion i'r ymgynghoriad

## Cwestiwn 1. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i ddefnyddio cosbau ariannol penodedig? Rhowch y rhesymau dros eich ateb

| C1 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Ydw** | **Na** | **Ddim yn siŵr / Heb ateb un ffordd na'r llall** | **Dim ateb** |
| **Nifer** | 27 | 9 | 1 | 0 |
| **Canran** | 73% | 24% | 3% | Amh. |

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (73%) o blaid cynnwys Cosbau Ariannol Penodedig (FMPs) yn ein rheoliadau. O'r rhai a gytunodd, roedd cyfran fawr yn cefnogi'r trywydd ond heb roi rheswm penodol heblaw y byddai'n gweithredu fel anogaeth i beidio â throseddu. Roedd sawl ymatebydd o'u plaid am eu bod yn credu y byddent yn cynnig ffordd symlach a mwy effeithlon o ddelio â throseddau, yn enwedig fel rhan o strategaeth orfodi ehangach. Dywedodd un ymatebydd, am fod taliadau tebyg yn cael eu defnyddio eisoes, er enghraifft ar gyfer troseddau parcio, y byddai pobl yn ei chael hi'n haws deall y dull gorfodi hwn.

Dywedodd ymatebydd arall y gallai eu defnyddio leihau'r angen o bosib i awdurdodau lleol orfod mynd ar drywydd troseddwyr drwy'r system cyfiawnder troseddol. Ond awgrymodd yr un ymatebydd y dylai fod camau gorfodi eraill i ddelio ag achosion difrifol neu o droseddu aml. Roedd ymatebwyr eraill hefyd o blaid eu cynnwys cyn belled â'u bod yn cael eu cyflwyno'n briodol ac yn adlewyrchu difrifoldeb y drosedd (cyfeiriwyd yn aml at eu defnyddio ar gyfer achosion o fân droseddu a bod dulliau eraill yn cael eu defnyddio ar gyfer achosion mwy difrifol).

Cytunodd y Gymdeithas Siopau Cyfleustra â'u defnyddio, gyda'r amod bod ymgyrchoedd cyfathrebu'n cael eu cynnal i gefnogi unrhyw gamau gorfodi, yn enwedig yn nyddiau cynnar y gwaharddiadau, i helpu i godi lefelau cydymffurfio. Disgrifiodd ymatebydd arall, McDonalds, yr heriau a fyddai'n wynebu eu busnesau wrth gael gwared ar gynhyrchion plastig untro o'u cadwyn gyflenwi a dod o hyd i ddeunyddiau amgen. Unwaith eto, awgrymwyd bod addysgu busnesau a gweithio gyda nhw yn hytrach na'u cosbi ar unwaith yn well wrth geisio eu cael i gydymffurfio â'r ddeddf. Fel gyda'n hymgynghoriad blaenorol, fe wnaeth rhai ymatebwyr amodi eu cefnogaeth gyda sylwadau ynghylch yr angen i sicrhau digon o adnoddau ac arian ar gyfer cynnal camau gorfodi.

O'r rhai a ddywedodd eu bod yn erbyn defnyddio Cosbau Penodedig (24%), roedd y rhan fwyaf yn eu gwrthwynebu am eu bod yn erbyn unrhyw fath o gamau gorfodi, gan ddweud eu bod yn gyfystyr â threth, yn ymyrraeth gan y Llywodraeth neu y dylid ceisio cydymffurfiaeth trwy ddulliau eraill (addysg er enghraifft). Roedd Safonau Masnach Cymru yn erbyn eu defnyddio wrth ddelio â busnesau mwy, gan nodi eu cefnogaeth gynharach i Gosbau Ariannol Amrywiadwy ar eu cyfer.

**Ymatebion enghreifftiol (Cyfieithiadau)**

*"Cytuno. Mae cosbau ariannol penodedig yn cael eu hystyried yn eang fel dull syml ac effeithlon ar gyfer delio â throseddau lefel isel. Fel rhan o strategaeth orfodi fwy, gall cosbau ariannol penodedig fod yn ffordd weladwy, effeithiol a symlach o ddelio ag ystod eang o droseddau lefel isel"*. **Awdurdodau Lleol Cymru**

*"Dwi'n cytuno, mae'n gwneud y drefn yn symlach ac yn fwy hyblyg*". **Ymateb dienw.**

"*Ydw, rwy'n cytuno. Mae'n ffordd gyflym o weithredu yn erbyn troseddau bach h.y. trosedd na fydd yn debygol o gael ei hailadrodd. Pe bai archfarchnad, dyweder, yn troseddu, ddylen nhw ddim cael cosb ariannol benodedig gan fod ganddyn nhw'r adnoddau i wybod y gyfraith, ac y dylent gadw ati.*
*Mae archfarchnadoedd wedi codi gwrychyn am eu bod wedi defnyddio'r ddeddfwriaeth ar fagiau siopa untro i werthu bagiau o blastig llawer mwy trwchus yn hytrach na chynnig bagiau siopa papur neu rai o hesian, ac fe gawsant wneud hynny*". **Ymateb dienw**

*"Anghytuno. Mae hi bron yn amhosib stopio plastig untro. Byddai'n well ei gwneud hi'n haws ei ailgylchu".* **Ymateb dienw**

*"Anghytuno, gan fod y faich ariannol ar fusnesau eisoes yn uchel".* **Ymateb dienw**

## Cwestiwn 2. Os defnyddir cosbau ariannol penodedig, rydym yn cynnig y dylid pennu swm o £200. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r swm hwnnw?

| C | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Ydw | Na | Ddim yn siŵr / Heb ateb ydw nac nac ydw | Dim ateb |
| **Nifer** | 13 | 18 | 3 | 3 |
| **Canran** | 35% | 49% | 8% | 8% |

Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn amrywio. Er bod ychydig o dan 50% yn gwrthwynebu'r swm o £200 a gynigiwyd, roedd pump o'r rheini (14%) yn gwrthwynebu defnyddio unrhyw fath o gosb ariannol neu heb gynnig unrhyw swm arall. Awgrymodd pump ymatebydd arall (14%) a oedd yn anghytuno â'r swm o £200 a gynigiwyd naill ai ddirwyon sylweddol uwch (er enghraifft £1000) neu raddfa llithro i osod y swm. Er ein bod yn cydnabod cryfder y teimladau y tu ôl i'r safbwyntiau hyn, bydd sancsiynau sifil eraill ar gael i awdurdodau lleol os yw'r drosedd yn haeddu cosb uwch.

O'r lleill a wrthwynebodd y cynnig, awgrymodd un ymatebydd (3%) £400 ac awgrymodd dau (5%), o'r diwydiant gwastraff (Biffa a'r Gymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol) y dylid gosod swm o £300. Sail y rhesymeg dros y swm hwn oedd yr angen am gysondeb â chynnig arall gan Lywodraeth Cymru sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd (rheoliadau i orfodi busnesau, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i wahanu gwastraff ailgylchu). Roedd tri o'r ymatebwyr (8%) yn teimlo bod y swm yn rhy uchel (er na awgrymwyd swm arall).

Roedd llawer o'r ymatebwyr a oedd o blaid y cynnig o £200 yn ei gefnogi am eu bod yn teimlo bod y swm hwn yn rhesymol a chymesur ar gyfer y drosedd. Awgrymodd un ymatebydd y dylai fod dwy lefel o Gosb Benodedig, £100 am y drosedd gyntaf a £200 am yr ail drosedd.

**<u>Ymatebion enghreifftiol (Cyfieithiadau)</u>**

*Na, mae 400 yn well na 200. Efallai y bydd yn rhatach defnyddio plastig untro a thalu dirwy os cewch eich dal. Pe bai'n cael ei erlyn.* **Ymateb dienw**

*A yw'n ddigon i annog pobl i beidio â throseddu? Cosb ar wahân ar gyfer pob trosedd? Neu £200 bob achlysur? A fydd hyn yn ddigon i annog gwneuthurwr / defnyddiwr plastig untro i beidio â'i ddefnyddio? Os byddant yn talu'r ddirwy ac yn cario ymlaen i ddefnyddio plastig untro, yna ni fyddai'n ddigon.* **Ymateb dienw**

*Rwy'n cytuno â'r swm hwn. Mae'n ddigon o sbardun i gydymffurfio â'r rheolau. Os caiff ei newid, dylai fod yn uwch nid yn is.* **Ymateb dienw**

*Ydw. Ond er mwyn bod yn deg â masnachwyr bach, dylid hysbysebu'r gosb newydd yn eang.* **Ymateb dienw**

## Ymateb y Llywodraeth a'r camau nesaf

Rydym yn croesawu'r ymatebion i'n hymgynghoriad.  Er ein bod yn cydnabod bod sawl ymateb yn eu gwrthwynebu neu'n anghytuno â sut ydym am fynd ati, o roi popeth yn y glorian, credwn fod yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cefnogi'r cynnig i gynnwys Cosbau Penodedig yn y rheoliadau.

Ein bwriad yw i'r rheoliadau ddod i rym ym mis Rhagfyr 2023.

Gallai'r dyddiad hwn newid, gan ddibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael a hynt y broses ddeddfwriaethol.